FUNDED BY ARIENNIR GAN COMIC RELIEF

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru

Ariannu gweithgarwch cymunedol i ysgogi newid cymdeithasol positif, parhaol

Diben yr arweiniad hwn yw helpu ymgeiswyr i ddeall mwy am Gronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru sy'n cynnig dau fath o grant:

Grantiau Bach £1,000 - £10,000
Grantiau Mawr (Twf Sefydliadol) £30,000 - £50,000

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phwy all ymgeisio am gyllid, pa fath o brosiectau y gallwn eu hariannu, a beth sydd ei angen gan ymgeiswyr.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3

2. Egwyddorion cyffredinol 3

3. Sut fydd y cynllun yn gweithio? 4

3.1 Grantiau Bach 4

3.2 Grant Mawr: Twf Sefydliadol 4

4. Pwy all gael at y cyllid? 5

5. Rhestr wirio cyn ymgeisio 6

6. Budd Cymunedol 7

7. Cyllid cyfatebol 7

8. Y broses ymgeisio a phenderfynu 7

9. Talu'r grant 7

10. Adrodd am y Prosiect 8

11. Cymorth ac arweiniad pellach 9

1. Cyflwyniad

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn gweinyddu dwy gronfa grant gan Comic Relief yng Nghymru:

- Cronfa Gymunedol - Grantiau Bach
- Cronfa Twf Sefydliadol - Grantiau Mawr

Mae Comic Relief yn gwybod bod angen cymryd camau ar lawr gwlad er mwyn ysgogi newidiadau cymdeithasol positif.

Rhwydwaith o fudiadau cymorth ledled Cymru i'r trydydd sector yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Bydd Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn darparu'r cynllun ariannu hwn mewn ffordd hygyrch i grwpiau cymunedol ar hyd a lled Cymru, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd y rheini sy'n gweithredu i newid a gwella eu bro.

2. Egwyddorion cyffredinol

Bydd y ffordd newydd hon o ddosbarthu cyllid yn cynnig y cyllid o dan bedair Thema Strategol Comic Relief:

Plant yn Goroesi ac yn Ffynnu – Camau i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a mynediad at gyfleoedd i wireddu eu potensial

Cydraddoldeb Rhywiol – Camau i wella cydraddoldeb i fenywod a merched

Lle Diogel i Fod – Camau i helpu pobl agored i niwed i wella eu hamgylchiadau a'u diogelwch

Iechyd Meddwl – Camau i roi mynediad at gymorth a chodi ymwybyddiaeth

Mae mudiadau sydd â diben cymdeithasol ac incwm blynyddol o dan £250,000 yn gymwys i ymgeisio.

O ran ceisiadau i'r Gronfa Gymunedol (£1,000 - £10,000) – bwriadwn ariannu gweithgarwch cymunedol ar faterion lleol. I gael cymorth wrth ddatblygu'ch prosiect ac os oes gennych ymholiad cyffredinol cyfeiriwch at y tabl ar ddiwedd y ddogfen hon i weld y manylion cyswllt ar gyfer eich Arweinydd Rhanbarthol

O ran ceisiadau am grant Twf Sefydliadol (£30,000-£50,000) – rydym yn chwilio am geisiadau gan fudiadau sydd eisiau meithrin eu gallu, drwy weithgareddau fel archwilio maes gwaith newydd neu lenwi bwlch hyfforddi. Siaradwch â'r Tîm Grantiau yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) i drafod eich syniad ar gyfer prosiect drwy ffonio 0300 111 0124 neu ebostio comicreliefgrants@wcva.cymru

3. Sut fydd y cynllun yn gweithio?

Mae £900,000 mewn grantiau ar gael, ac mae'r dyraniadau wedi'u gosod yn ôl rhanbarth. Mae'r map isod yn dangos faint sydd ar gael.

Twf Sefydliadol Grantiau - £160,000 dros Cymru

Grantiau Bach

Gogledd Cymru – £193,333

Gorllewin Cymru – £96,667

Canolbarth Cymru (Powys) – £63,333

Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot – £70,000

RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr – £96,667

Gwent – £150,000

Caerdydd a Bro Morgannwg – £70,000



Bydd y ffenestr ymgeisio yn agor 19 Ebrill 2022 gyda dyddiad cau o 27 Mehefin 2022. Y gynharaf gall y prosiectau ddechrau yw 22 Awst 2022. Dylai prosiectau gael eu cwblhau erbyn 20 Awst 2023.

3.1 Grantiau Bach

Bydd y Cynllun yn cynnig grantiau bach rhwng £1,000 a £10,000.

Nod y gronfa hon yw sicrhau bod cyllid Comic Relief yn cyrraedd y grwpiau cymunedol sy'n arwain newid a thwf yn eu bro, gan alluogi newid positif mewn ymateb i anghenion penodol eu cymuned.

Bydd prosiectau a ariennir yn meddu ar ddealltwriaeth gref o angen neu her y maent wedi'i ganfod yn eu cymuned ac yn ymgeisio am gyllid i fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy ddull realistig a fydd yn para.

Bydd angen i bob prosiect ddangos y canlynol yn eu cais:

- Ym mha ffordd y bydd y prosiect o fudd i'r gymuned yn yr ardal lle cynhelir eu gweithgarwch
- Eu bod yn cynnwys y gymuned a bod ganddynt gefnogaeth y gymuned
- Cyfraniad at un neu ragor o Themâu Strategol Comic Relief

3.2 Grant Mawr: Twf Sefydliadol

Mae Comic Relief a rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn cydnabod y gwaith ardderchog y mae mudiadau cymunedol yn ei wneud ledled Cymru ac maent yn awyddus i helpu mudiadau i feithrin eu gallu mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol.

Nod y gronfa twf sefydliadol hon yw rhoi'r cyfle i fudiadau gael effaith strategol a chynyddu eu cydnerthedd.

Bydd £160,000 ar gael i fudiadau sydd â diben cymdeithasol, grantiau rhwng £30,000 a £50,000.

Mae'r grantiau hyn ar gael i fudiadau sydd am gynnal gweithgarwch yn y meysydd canlynol:

- Adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda o ran gweithgarwch cymunedol eich mudiad
- Cryfhau a mesur effaith eich gweithgarwch cymunedol craidd
- Datblygu ffyrdd newydd o weithio
- Rhoi amser i arweinwyr ddatblygu strategaeth sefydliadol
- Rhoi newid ar waith yn y mudiad i gynyddu cydnerthedd a hunangynhaliaeth
- Llenwi bwlch mewn sgiliau yn y mudiad
- Archwilio maes posib i'w dyfu yn y mudiad

Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys popeth, ac mae croeso i chi gysylltu i drafod unrhyw syniadau sydd gennych.

Bydd angen i fudiadau ddangos:

- Eu bod yn gweithredu ar lefel gymunedol, gyda'r gymuned a'i hangen yn helpu i lywio'r prosiect
- Dulliau i fesur yr effaith a geir
- Parodrwydd i rannu eu profiadau a dysgu gyda mudiadau eraill pan ddaw'r cyllid i ben
- Effaith barhaus/parhad y gweithgarwch

4. Pwy all gael at y cyllid?

Mae'r gronfa'n agored i geisiadau am brosiectau gan fudiadau yn y categorïau canlynol y mae eu trosiant blynyddol o dan £250,000:

- Elusennau Cofrestredig
- Grwpiau a chlybiau cyfansoddedig
- Cwmnïau Dielw neu Gwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Mentrau Cymdeithasol
- Cynghorau Tref, Plwyf a Chymuned
- Prosiectau partneriaeth – bydd angen i bartner arweiniol ymgeisio ac, os yw'n llwyddiannus, ddal y dyfarniad grant a rheoli'r gwaith monitro ac adrodd

Ni allwn dderbyn ceisiadau gan y canlynol:

- Unigolion
- Unig fasnachwyr
- Cwmnïau sy'n anelu at greu elw yn bennaf i'w ddosbarthu'n breifat
- Mudiadau y tu allan i Gymru
- Ceisiadau a wneir gan un grŵp neu fudiad ar ran un arall

Rhaid i weithgarwch y prosiect fod yng Nghymru.

Rhaid i'r ymgeisydd gyd-fynd â'r canlynol:

- bod yn grŵp neu'n fudiad cyfansoddedig a all ddarparu copïau o ddogfennau llywodraethu
- meddu ar y caniatâd tir perthnasol, pan fo angen
- meddu ar gyfrif banc mudiad/grŵp cymunedol (ni thelir grantiau i gyfrif banc unigolion)

Ni fydd y Cynllun yn ariannu:

- Costau sydd eisoes wedi'u gwario
- Prosiectau ar dir neu gyfleuster nad yw'n agored i'r gymuned leol
- Gwella gwedd strydoedd, e.e. arwyddion, meysydd parcio
- Gweithgareddau sy'n creu elw na ddefnyddir er budd pellach i'r gymuned
- Digwyddiadau neu gynadleddau untro – gall cynadleddau a gweithdai sy'n rhan o brosiect a fydd yn cael effaith barhaol gael eu cynnwys yng nghostau'ch prosiect
- Darparu gwasanaethau y mae'r Llywodraeth/Bwrdd Iechyd yn gyfrifol amdanynt
- Unrhyw weithgarwch cenhadu crefyddol

Os nad ydych yn siwr mae croeso i chi gysylltu i drafod eich syniad ar gyfer prosiect a'i gymhwysedd.

5. Rhestr wirio cyn ymgeisio

Cyn ymgeisio i'r gronfa, sicrhewch y gallwch ddarparu'r canlynol gyda'ch cais, gall eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol gynorthwyo a chynghori. Rhan o rôl rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru yw cefnogi'r sector drwy roi cyngor ar arferion llywodraethu da. Os nad oes gennych rai o'r isod, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol (sydd i gyd yn rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru) i gael cymorth:

- Cyfansoddiad/dogfennau llywodraethu'ch mudiad wedi'u llofnodi – rhaid i ddogfennau llywodraethu'r mudiad amlinellu diben cymdeithasol y mudiad yn glir, dangos bod unrhyw elw neu asedau yn cael eu defnyddio at y diben cymdeithasol hwn, a dangos bod clo asedau yn ei le, pan fo'n berthnasol.
- Y caniatâd perthnasol i gynnal y gweithgaredd
- Copïau wedi'u llofnodi o ddatganiadau ariannol diweddaraf eich mudiad neu'r cyfrifon blynyddol a archwiliwyd ddiwethaf
- Cyfriflen Banc
- Copi o Bolisi Amgylcheddol eich mudiad
- Copi o Bolisi Cyfle Cyfartal eich mudiad
- Copi o Bolisi Iaith Gymraeg eich mudiad
- Copi o Bolisi Diogelu'ch mudiad
- Tystiolaeth/llythyrau o gefnogaeth y gymuned dros y prosiect (dim mwy na 5)

- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol – os bydd eich prosiect yn defnyddio cyllid o fwy nag un ffynhonnell, bydd angen i ymgeiswyr roi gwybod ffynhonnell y cyllid cyfatebol i ni a darparu tystiolaeth ei fod wedi'i sicrhau. Os ydych wrthi'n ymgeisio am gyllid arall, rhowch wybod i ni ym mha gam yn y broses yr ydych.

6. Budd Cymunedol

Bydd angen i bob prosiect ddangos yn eu cais ym mha ffordd y bydd y prosiect o fudd i'r gymuned yn yr ardal lle cynhelir eu gweithgarwch. Dylid dangos drwy gydol y cais fod y prosiect wedi ennyn diddordeb y gymuned, ei fod wedi cynnwys y gymuned a bod y gymuned yn ei gefnogi. Croesawir tystiolaeth ategol. Gallai hyn gynnwys canlyniadau arolygon, llythyrau o gefnogaeth, dyfyniadau gan aelodau o'r gymuned ayyb.

7. Cyllid cyfatebol

Nid oes angen cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun a gall y cynllun gefnogi 100% o gostau prosiect. Er nad yw cyllid cyfatebol yn ofyniad penodol yn y cynllun, gellir ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau ehangach ar y cyd â ffynonellau eraill o gyllid.
Gellir cynnwys cyllid cyfatebol mewn nwyddau yng nghyllideb eich prosiect, er enghraifft, darparu gweithiau, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau a roddir i'r prosiect gan ddarparwr arall.
Dylid hefyd gynnwys oriau gwirfoddolwyr ym mhroffil cyllideb y prosiect. Mae'r cyfraddau gwirfoddoli tybiannol ar gyfer gwahanol rolau mewn prosiect yn cael eu cymryd o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Gosodir yr isafswm cyfradd wirfoddoli yn unol â chyfradd y cyflog byw. Rydym yn awyddus i gofnodi'r gwerth a gyfrannir at brosiectau gan wirfoddolwyr ac felly'n gofyn i chi eu cynnwys ym mhroffil eich prosiect.

8. Y broses ymgeisio a phenderfynu

I wneud cais am Grant Twf Sefydliadol, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ceisiadau Amlddefnydd CGGC (MAP). Os ydych wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi trwy roi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar y sgrin gartref.

Gall sefydliadau gofrestru drwy fynd i'r wefan map.wcva.cymru.

Os oes angen help arnoch i gofrestru ar MAP dilynwch y fideo hwn.
I wneud cais am Grant Bach, lawrlwythwch ffurflen gais o dudalennau gwe eich Arweinydd Rhanbarthol – os ydych yn ansicr ynghylch eich Arweinydd Rhanbarthol, gweler y tabl ar waelod y ddogfen hon.

Rhaid cyflwyno ceisiadau yn unol â'r dyddiad cau a gyhoeddir. Nid ystyrir ceisiadau a geir ar ôl y dyddiad cau.
Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu a'u cyflwyno gerbron panel cynghori i'w cymeradwyo neu eu gwrthod. Cynhelir paneli cynghori yn rhanbarthol ar gyfer grantiau bach, ac yn genedlaethol ar gyfer grantiau mawr.

9. Talu'r grant

Bydd grantiau'n cael eu talu i gyfrif banc eich mudiad neu'ch grŵp. Dylid rhoi manylion banc ar eich ffurflen gais. Rhaid i'r cyfrif fod ag o leiaf ddau lofnodydd awdurdodedig nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, bydd angen enwi'r bobl hyn ar eich ffurflen gais a nodi eu cyfeiriadau ebost.

10. Adrodd am y Prosiect

10.1 Beth y gofynnir i mi ei fesur?

- Pa effaith bositif y bydd y prosiect yn ei chael?
- Sut mae hyn yn cyd-fynd â'ch dewis thema?
- Sut fydd yr effaith yn cael ei mesur? A fydd modd i chi sefydlu llinell sylfaen a mesur y gwelliant ar ôl cynnal y prosiect?
- Pa mor barhaol fydd effaith y prosiect? Er enghraifft, a fydd y gweithgarwch yn parhau, a fydd yn meithrin sgiliau neu adnoddau yn y gymuned?

Bydd angen i brosiectau llwyddiannus gyflwyno adroddiad monitor ar gyfnodau 6 mis trwy gydol y broses o gyflawni'r prosiect. Bydd hefyd angen astudiaethau achos gan eich prosiect.

10.2 Pam mae angen y wybodaeth hon?

Bydd casglu'r wybodaeth hon gan y rheini sy'n cael grant yn ein helpu i ddangos y gwahaniaeth cyfunol y mae'r cyllid yn ei wneud yn y cymunedau lle cynhelir y gweithgarwch.

10.3 Targedau prosiectau Cyllid Cymunedol Comic Relief yng Nghymru:

Bydd ymgeiswyr am grantiau bach yn gosod eu niferoedd targed eu hunain ar gyfer y targedau isod. Dylech gynnwys cynifer o dargedau ag yr ydych yn credu sy'n realistig, gan y bydd hyn yn helpu i ddangos amrywiaeth lawn yr effaith y gallai'ch gweithgareddau ei chael.

Targedau

Nifer y:

- Gwirfoddolwyr sy'n darparu gweithgarwch
- Buddiolwyr (aelodau o'r gymuned) sy'n rhan o'r prosiect
- Sgyrsiau/cyflwyniadau/digwyddiadau ennyn diddordeb a gynhelir
- Cyfleoedd hyfforddiant neu brofiad gwaith a gynigir
- Dilynwyr sy'n cael eu denu ar y cyfryngau cymdeithasol

11. Cymorth ac arweiniad pellach

Lefel y Grant	Arweinydd Rhanbarthol	Manylion Cyswllt
Grantiau Twf Sefydliadol £30,000 - £50,000	Cenedlaethol	Ebost - comicreliefgrants@wcva.cymru Gwefan - WCVA Ffôn - 0300 111 0124
Grantiau Bach £1,000 - £10,000	Gogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn, Gwynedd)	Ebost - grants@cvsc.org.uk Gwefan - CVSC
	Gorllewin Cymru (Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin)	Ebost - admin@cavs.org.uk Gwefan - CAVS
	Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot	Ebost - grants@nptcvs.org.uk Gwefan - NPTCVS
	RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr	Ebost - grants@vamt.net Gwefan - VAMT
	Powys	Ebost - grants@pavo.org.uk Gwefan - PAVO
	Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen)	Ebost - Comicrelief22@gavo.org.uk Gwefan - GAVO Ar gyfer ceisiadau yn Nhorfaen : Email - funding@tvawales.org.uk Website - TVA
	Caerdydd a Bro Morgannwg	Ebost - admin@c3sc.org.uk Gwefan - CS3C

I gael cymorth i ddatblygu'ch prosiect cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.